Anrhydeddus Gymdeithas
Y Cymmrodorion
Sefydlwyd 1751

The Honourable Society
Of Cymmrodorion
Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF WALES

# Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a Chyfrifon

## am y cyfnod
## 1 Ionawr 2017
## hyd at
## 31 Rhagfyr 2017

**Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion**
**157-163 Gray's Inn Road, Llundain WC1X 8UE**

**Rhif Elusen Cofrestredig 313141**
www.cymmrodorion.org

# Anrhydeddus Gymdeithas Y Cymmrodorion

## Adroddiad a Chyfrifon
## ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2017 hyd at 31 Rhagfyr 2017

**Cynnwys** **Tudalen**


| Cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Gwybodaeth Cyfeirio a Gweinyddol | 1 |
| Llywodraethu | 2 |
| Dogfen Llywodraethu: y Siarter Brenhinol | 2 |
| Cyfrifoldebau'r Cyngor | 2 |
| Recriwtio ac Apwyntio Aelodau'r Cyngor | 2 |
| Cynefino a Hyfforddi'r Ymddiriedolwyr | 2 |
| Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol | 3 |
| Partïon Perthynol | 3 |
| Rheoli Risg | 3 |
| Strwythur Cyfundrefnol | 3 |
| Swyddogion | 3 |
| Pwyllgorau'r Cyngor | 4 |
| Amcanion Elusennol | 5 |
| Gweithgareddau a Chyflawniadau | 5 |
| Rhaglen Darlithoedd a Thrafodaethau | 5 |
| Dyfarnu Medal y Gymdeithas | 7 |
| Cyhoeddiadau a Gwybodaeth Ar-lein | 8 |
| Annog Astudiaeth ac Ymchwil | 9 |
| Gweithio gyda Sefydliadau Eraill | 9 |
| Arolwg o'r Aelodau | 10 |
| Sut Mae Gweithgareddau'r Gymdeithas yn Cyflwyno Budd Cyhoeddus | 10 |
| Datganiad | 11 |
| Arolwg Ariannol | 12 |
| Polisi ar Gadw a Buddsoddi Cronfeydd | 13 |
| Datganiadau Cyllidol am y Flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2017 | 14 |
| Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol i'r Ymddiriedolwyr | 15 |
| Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr | 16 |
| Datganiadau Cyllidol hyd at 31 Rhagfyr 2017: Derbyniadau a Thaliadau | 17 |
| Rhestr Asedau ar 31 Rhagfyr 2017 | 18 |

# Gwybodaeth Cyfeirio a Gweinyddol

| | |
|---|---|
| Enw'r Elusen: | Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion |
| Enw Saesneg yr Elusen: | The Honourable Society of Cymmrodorion |
| Rhif Cofrestru'r Elusen: | 313141 |
| Swyddfa Gofrestredig | 157-163 Gray's Inn Road<br>Llundain WC1X 8UE |
| Gwefan: | www.cymmrodorion.org |
| Noddwr Brenhinol: | Ei Uchelder Brenhinol, Tywysog Cymru |

**Aelodau'r Cyngor (Ymddiriedolwyr yr Elusen)**


Mrs Anne Arnold (2018)
Yr Athro Thomas M O Charles-Edwards FRHistS FBA FLSW (2020)
Yr Athro W Stuart Cole CBE FCIT FILT (2020)
Mr Huw Llywelyn Davies (2020) (o 23 Mai 2017)
Dr Rhian Davies (2019)
Mrs Elinor Talfan Delaney (2018)
Yr Athro John Elliott FCIPD (tan 23 Mai 2017)
Yr Athro Helen Fulton FLSW (2020)
Mr Michael Gibbon QC (2019)
Mr Arwyn Lloyd Hughes FRHistS FSA (2018)
Mr Peter Jeffreys (2018)
Mr Robert John (2018)
Mr Mathew Kidwell (2020) (o 23 Mai 2017)
Mr R Kenneth Kyffin CEng MIEE (2019)
Y Parchedig Dr Adrian Morgan (2019)
Yr Athro Prys Morgan DL FSA FRHistS FLSW (2017)
Ms Ceridwen Roberts OBE FAcSS FLSW (2018)
Ms Rhian Medi Roberts (2018)
Dr Sara Elin Roberts (2019)
Mrs Gwenda Sippings FCLIP (tan 23 Mai 2017)
Yr Athro Gruffydd Aled Williams FLSW (tan 23 Mai 2017)
Dr Lynn Williams FLSW (2018)
Mr Huw Wynne-Griffith (2020)


Ac eithrio pan nodir hyn, gwasanaethodd yr unigolion a restrir uchod fel Ymddiriedolwyr yr Elusen a Chyfarwyddwyr trwy gydol y cyfnod sy'n destun i'r Adroddiad hwn (1 Ionawr 2017 i 31 Rhagfyr 2017) a buont yn aelodau ar y dyddiad (21 Chwefror 2018) y cymeradwywyd yr Adroddiad. Y flwyddyn a welir mewn cromfachau ar ôl pob enw yw'r flwyddyn pan fydd tymor yr aelod yn dod i ben.

**Arholwr Annibynnol**
R Lewis, Lewis & Co., 75, Kenton Street, Llundain WC1 1NN

**Bancwyr**
HSBC Bank plc, 196 Oxford Street, Llundain W1D 1NT

# Llywodraethu

## Dogfen Llywodraethu: y Siarter Brenhinol

Sefydlwyd Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion ym 1751 a chafodd ei Siarter Brenhinol ym 1951. Y Siarter a'r Is-ddeddfau sydd bellach mewn grym yw'r rhai a addaswyd dan Orchymyn y Cyfrin Gyngor ar 21ain Gorffennaf 1999.

## Cyfrifoldebau'r Cyngor

Rhydd y Siarter ganiatâd i'r Cyngor "gael rheolaeth a meistrolaeth ar y Gymdeithas ynghyd â gweinyddu'r holl eiddo a'r incwm sydd ynghlwm". O'r herwydd mae gan y Cyngor gyfrifoldeb i weithredu pwerau'r Gymdeithas i hyrwyddo ei hamcanion. Diffinir pwerau ac amcanion y Gymdeithas yn y Siarter. Mae'r Gymdeithas yn Elusen Gofrestredig (Rhif 313141) ac mae aelodau'r Cyngor yn gwasanaethu fel Ymddiriedolwyr yr Elusen at ddiben cyfraith elusen. Rhydd pob aelod o'r Cyngor o'u hamser yn wirfoddol ac ni allant elwa o gwbl o'r elusen. Mae'n ofynnol bod y Cyngor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith bob blwyddyn.

## Recriwtio ac Apwyntio Aelodau'r Cyngor

Dan Siarter ac Is-ddeddfau'r Gymdeithas:

- dylai'r Cyngor gael o leiaf deuddeg Aelod a dim mwy na deg ar hugain;
- dylai traean o aelodau'r Cyngor ymddeol yn eu tro bob blwyddyn;
- bydd aelodau'r Cyngor yn gymwys i gael eu hail-ethol heb gyfyngiad;
- llenwir unrhyw leoedd gwag trwy etholiad yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas;
- bydd gan y Cyngor allu i lenwi lleoedd gwag ar y Cyngor yn ystod y flwyddyn, yn dibynnu ar gadarnhad o hyn yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf.

Gall yr aelodau enwebu un neu fwy o unigolion ymysg eu nifer i'w hethol i'r Cyngor gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Cyngor wedi ystyried yr egwyddorion a'r gweithdrefnau sy'n llywodraethu'r aelodaeth. Cytunodd y byddai'n briodol pe bai'n chwarae rôl ragweithiol yn nodi Ymddiriedolwyr newydd, ar sail y bylchau yn y sgiliau sydd ar gael iddo drwy ei aelodau presennol, ac i'r perwyl hwnnw, mae wedi cynnal archwiliad o sgiliau, profiad ac arbenigedd yr aelodau hynny.

Yn ystod y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym Mai 2017, etholwyd neu ail-etholwyd yr aelodau canlynol i wasanaethu ar y Cyngor am gyfnod o dair blynedd: yr Athro Thomas Charles-Edwards; yr Athro Stuart Cole; Mr Huw Llywelyn Davies; yr Athro Helen Fulton; Mr Mathew Kidwell; a Mr Huw Wynne-Griffith. Dymuna'r Cyngor gofnodi ei werthfawrogiad o'r gwasanaeth nodedig a roddwyd gan yr Athro John Elliott a Mrs Gwenda Sippings, yr oedd y ddau ohonynt wedi gwasanaethu fel aelod a Chadeirydd o'r Cyngor a'i Bwyllgorau dros nifer fawr o flynyddoedd, a'r Athro Gruffydd Aled Williams, a oedd wedi gwasanaethu fel cynrychiolydd y Gymdeithas ar Bwyllgor Ymgynghorol Y Bywgraffiadur Cymreig, yn ogystal â gwasanaethu fel aelod o'r Cyngor a'i Bwyllgorau.

## Cynefino a Hyfforddi Ymddiriedolwyr

Rhoddwyd y dogfennau perthnasol i'r Ymddiriedolwyr ynghylch eu cyfrifoldebau dan y Ddeddf Elusennau ac mae'r Cyngor wedi ymgymryd i dderbyn diweddariad blynyddol ar rôl a chyfrifoldebau Ymddiriedolwyr Elusen. Mae gan aelodau'r Cyngor brofiad eang o lywodraethu a materion sy'n berthnasol i weinyddiaeth elusennau ac maent yn gyfarwydd iawn â phwrpas ac amcanion y Gymdeithas a'i gwaith.

## Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Rhan o fusnes Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol aelodau'r Gymdeithas yw derbyn datganiad y Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr blaenorol ynghyd ag adroddiadau cysylltiol yn ogystal ag ethol rhai o Swyddogion y Gymdeithas ac aelodau'r Cyngor.

## Partïon Perthynol

Mae'r Gymdeithas yn sefydliad hollol annibynnol ond mae'n canlyn rhyngweithredu adeiladol gydag ystod o gyrff eraill, yn enwedig cymdeithasau a sefydliadau lleol a chenedlaethol yng Nghymru a Llundain.

## Rheoli Risg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Cyngor adolygiad o'r prif risgiau sy'n wynebu'r Gymdeithas ac o'r gweithdrefnau a'r systemau a oedd wedi eu rhoi yn eu lle i reoli a lliniaru'r risgiau a oedd wedi'u dynodi. Mae'r Cyngor yn adolygu a diweddaru'r rhestr o risgiau o leiaf unwaith bob blwyddyn.

# Strwythur Cyfundrefnol

## Swyddogion

### *Llywydd*

Mae Llywydd y Gymdeithas yn aelod o'r Cyngor yn rhinwedd ei swydd ac fe'i etholir yn flynyddol gan yr aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Ail-etholwyd yr Athro Prys Morgan fel Llywydd ar 23 Mai 2017.

### *Is-Lywyddion*

Dan yr is-ddeddfau caniateir cael (nifer amhenodol) o Is-Lywyddion, sy'n destun i etholiad neu ail-etholiad bob blwyddyn gan y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Mae swydd Is-Lywydd yn un anrhydeddus ac nid yw'r Is-Lywyddion yn aelodau o'r Cyngor yn rhinwedd eu swyddi. Ail-etholwyd deunaw Is-Lywydd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 23 Mai 2017. Penderfynodd Mr Geraint Francis Roberts peidio â chynnig ei enw ar gyfer ei ail-ethol. Gyda thristwch mawr cofnododd y Gymdeithas farwolaethau dau o'i Is-Lywyddion yn ystod 2017, yr Arglwydd Prys-Davies o Lanegryn LLD DSc a'r Athro Emeritws J Gwynn Williams CBE MA DLitt. Dymuna'r Cyngor gofnodi ei werthfawrogiad o'r gwasanaeth ardderchog a roddodd Mr Roberts, Yr Arglwydd Prys-Davies a'r Athro Williams i'r Gymdeithas.

### *Cadeirydd y Cyngor*

Apwyntir Cadeirydd y Cyngor gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd, sy'n adnewyddadwy. Cadeirydd y Cyngor trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn oedd Ceridwen Roberts.

### *Trysorydd Mygedol*

Apwyntir y Trysorydd Mygedol gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd sy'n adnewyddadwy. Y Trysorydd Mygedol trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn oedd Huw Wynne-Griffith.

### *Ysgrifennydd Mygedol*

Apwyntir yr Ysgrifennydd Mygedol gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd sy'n adnewyddadwy. Yr Ysgrifennydd Mygedol trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn oedd Lynn Williams.

***Golygydd Mygedol***
Apwyntir y Golygydd Mygedol (sy'n golygu cylchgrawn y Gymdeithas, y *Trafodion*), gan ac o blith aelodau'r Cyngor am gyfnod o dair blynedd sy'n adnewyddadwy. Y Golygydd Mygedol trwy gydol cyfnod yr Adroddiad hwn oedd yr Athro Helen Fulton.

## Pwyllgorau'r Cyngor

Mae'r Cyngor wedi sefydlu'r Pwyllgorau canlynol i gefnogi ei waith. Dyma aelodau'r Pwyllgorau a wasanaethodd yn ystod cyfnod yr Adroddiad hwn:

***Pwyllgor Gweithredol***

| | |
|---|---|
| Aelodau *ex officio*: | Lynn Williams (Ysgrifennydd Mygedol) (Cadeirydd); Ceridwen Roberts (Cadeirydd y Cyngor); Huw Wynne-Griffith (Trysorydd Mygedol) |
| Aelodau a apwyntiwyd gan ac o blith y Cyngor: | Elinor Talfan Delaney; Ceridwen Roberts (tan 24 Mawrth); yr Athro Thomas Charles Edwards (o 4 Mai 2016) |

***Pwyllgor Digwyddiadau***

| | |
|---|---|
| Aelodau *ex officio*: | Yr Athro Prys Morgan (Llywydd) (Cadeirydd); Lynn Williams (Ysgrifennydd Mygedol) |
| Aelodau a apwyntiwyd gan ac o blith y Cyngor: | Yr Athro Stuart Cole; Adrian Morgan; Rhian Medi Roberts; Robert John |

***Pwyllgor Dyfarniadau a Medalau***

| | |
|---|---|
| Aelod *ex officio*: | Yr Athro Prys Morgan (Llywydd) (Cadeirydd) |
| Aelodau a apwyntiwyd gan ac o blith y Cyngor: | Elinor Talfan Delaney; Arwyn lloyd Hughes; yr Athro John Elliott (tan 23 Mai 2017); yr Athro Gruffydd Aled Williams (tan 23 Mai 2017); yr Athro Thomas Charles-Edwards (o 23 Mai 2017); Michael Gibbon (o 23 Mai 2-17) |
| Aelod a apwyntwyd o blith aelodau'r Gymdeithas nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor: | Yr Athro John Elliott (o 23 Mai 2017) |

***Pwyllgor Buddsoddi (tan 23 Mai 2017)***

| | |
|---|---|
| Aelodau *ex officio*: | Huw Wynne-Griffith (Trysorydd Anrhydeddus) (Cadeirydd); Lynn Williams (Ysgirfennydd Mygedol) |
| Aelod a apwyntiwyd gan ac o blith y Cyngor: | Yr Athro John Elliott |

(Diddymwyd y Pwyllgor Buddsoddi ar 23 Mai 2017, pan drosglwyddwyd ei weithgareddau i'r Cyngor.)

Mae gan y Cyngor y pwer dan y Siarter i ddirprwyo'r oll neu unrhyw rai o'i bwerau i bwyllgorau neu is-bwyllgorau ac mae ganddo amodau gorchwyl cymeradwy ar gyfer y Pwyllgor Gweithredu sy'n pennu'r amodau pan y gall y Pwyllgor Gweithredu weithredu pwerau penodol y Cyngor er mwyn hyrwyddo amcanion y Gymdeithas.

# Amcanion Elusennol

Mae Siarter 1951 y Gymdeithas yn darparu fel a ganlyn:

Y mae'r Gymdeithas drwy hyn yn gorfforedig ac i'w chynnal gyda'r amcanion canlynol:-

(A) Yn amodol ar unrhyw ganiatâd neu gydsyniad angenrheidiol i drosglwyddo'r Hen Gymdeithas ei hasedau a'i rhwynedigaethau ac i barhau a datblygu gwaith yr Hen Gymdeithas.
(B) Cefnogi astudiaeth ac ymchwil mewn Llenyddiaeth, Hanes, y Celfyddydau a'r Gwyddorau i'r graddau y maent o ddiddordeb arbennig i'r Cymry.
(C) Hyrwyddo datblygiad Llenyddiaeth, y Celfyddydau a'r Gwyddorau yng Nghymru.
(D) Darparu cyfleusterau i ysgolheigion ddarllen papurau a chyhoeddi gweithiau ar Lenyddiaeth, Hanes, y Gwyddorau a'r Celfyddydau i'r graddau y maent o ddiddordeb arbennig i'r Cymry.
(E) Darparu fforwm cyffredinol i drafod materion a mudiadau sydd yn dylanwadu'n arbennig ar ddiwylliant Cymru.
(F) O bryd i'w gilydd cefnogi cynlluniau newydd a fydd o fantais i Gymru o ran ysgolheictod ac addysg.

Yn ychwanegol at yr amcanion hyn, mae'r Gymdeithas yn bodoli i hyrwyddo Llenyddiaeth, Hanes, y Celfyddydau a Gwyddoniaeth (yn cynnwys y Gwyddorau Cymdeithasol) cyn belled ag y maent o ddiddordeb arbennig i bobl Cymreig ac i hwyluso trafodaethau ar y pynciau hyn.

# Gweithgareddau a Chyflawniadau

Yn ogystal â delio a'r tasgau sylfaenol i sicrhau ei chadernid ariannol a chynnal ei systemau a gweithdrefnau llywodraethu, yn ystod 2016, parhaodd y Gymdeithas i gyflawni ei hamcanion trwy ganolbwyntio ar gyflawni'r gweithgareddau canlynol:

- trefnu rhaglen flynyddol o ddarlithoedd a thrafodaethau;
- dethol derbynnydd diweddaraf ei Medal a threfnu seremoni gyflwyno;
- cyhoeddi'r cylchgrawn, *Trafodion*, a darparu gwybodaeth ar-lein
- annog astudiaeth ac ymchwil;
- gweithio gyda sefydliadau eraill.

## Rhaglen o Ddarlithoedd a Thrafodaethau

Mae'r rhaglen o ddarlithoedd yn darparu llwyfan ar gyfer materion o bwysigrwydd i Gymru, i'w hystyried o fewn y Dywysogaeth a thu hwnt i'w ffiniau. Cyhoeddir darlithoedd y Gymdeithas ar y wefan a thrwy raglen wedi ei phrintio a anfonir at yr aelodau. Maent yn agored i'r cyhoedd ac mae mynediad am ddim.

Traddodwyd un ddarlith ar ddeg yn ystod blwyddyn galendr 2017. Roedd y rhain yn cynnwys Darlith Goffa Flynyddol June Gruffydd, a drefnwyd y cyd gyda Chymdeithas Sir Drefaldwyn; y ddarlith Gymraeg flynyddol a noddwyd gan Lywodraeth Cymru; Darlith Goffa flynyddol Syr Thomas Parry-Williams, a gynhaliwyd yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol; a'r darlith flynyddol a gynllunir mewn cysylltiad â Chymdeithas Ddysgedig Cymru. Cynhaliwyd yr holl ddarlithoedd yn Llundain ac eithrio'r un a draddodwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol (a gynhaliwyd ar Ynys Môn), y ddarlith a drefnwyd ar y cyd â Chymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi (a gynhaliwyd ym Mhen Bedw), a'r ddarlith flynyddol a drefnwyd ar y cyd â Chymdeithas Ddysgedig Cymru (a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd).

**Dydd Mercher 25 Ionawr 2017**
*Computational Aerodynamics at Swansea University and the Land Speed Record*
Siaradwr: Y Athro Kenneth Morgan, Coleg Peirianneg, Prifysgol Abertawe
Yr Athro Stuart Cole, Aelod o'r Cyngor, yn y gadair

**Dydd Mawrth 21 Chwefror 2017** (Darlith Goffa June Gruffydd, mewn cysylltiad â Chymdeithas Maldwyn)
*Belgian Refugee Musicians in mid-Wales during the First World War*
Siaradwraig: Dr Rhian Davies, Cyfarwyddwraig Gŵyl Gregynog ac Aelod o'r Cyngor
Peter Jeffreys, Aelod o'r Cyngor, yn y gadair

**Dydd Mercher 22 Mawrth 2017**
*Dreams, Divination and Devotion: Exploring the Ancient Druids of Britannia and Gaul*
Siaradwraig: Yr Athro Miranda Aldhouse Green, gynt o Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd, Prifysgol Caerdydd
Yr Athro Thomas Charles-Edwards, Aelod o'r Cyngor, yn y gadair

**Dydd Mercher 26 Ebrill 2017**
*Pioneers and Radicals: The Dillwyn Family's Transatlantic Tradition of Dissent and Innovation*
Siaradwraig: Yr Athro Kirsti Bohata, Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil i Lên ac Iaith Saesneg Cymru, Prifysgol Abertawe
Dr Lynn Williams, Ysgrifennydd Mygedol, yn y gadair

**Dydd Mawrth 23 Mai 2017** (mewn cysylltiad â Wales in London)
*'A Patron's Taste': The Gothic Fantasies of the 3rd Marquis of Bute and William Burges*
Siaradwr: Matthew Williams, Curadur, Castell Caerdydd
Ceridwen Roberts, Cadeirydd y Cyngor, yn y gadair

**Dydd Mercher 14 Mehefin 2017** (y ddarlith Gymraeg flynyddol, a noddir gan Lywodraeth Cymru)
*'Yr Ysbryd Arthrylithgar sydd yn awr yn cynhyrfu hiliogaeth y Cymry': Darllenwyr* Drych y Prif Oesoedd *Theophilus Evans yn y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg*
Siaradwr: Dr Robin Chapman, Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, Prifysgol Aberystwyth
Elinor Talfan Delaney, Aelod o'r Cyngor, yn y gadair

**Dydd Mawrth 8 Awst 2017** (Darlith Goffa Syr Thomas-Parry Williams, Darlith Flynyddol yr Eisteddfod)
*'Yr Owain hwn yw Harri'r Nawfed / Sydd yn trigo yng ngwlad estroniaid': Owain Lawgoch, yr Arwr sy'n Cysgu*
Siaradwr: Yr Athro Antony Carr, gynt o Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg, Prifysgol Bangor
Yr Athro Prys Morgan, Llywydd y Gymdeithas, yn y gadair

**Dydd Sadwrn 9 Medi 2017** (mewn cysylltiad â Chymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi, fel rhan o Ŵyl ddeuddydd i nodi canmlwyddiant dyfarniad Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol i Hedd Wyn [Ellis Humphrey Evans] ym 1917, wedi ei farw)
*'Y bardd trwm dan bridd tramor': Hedd Wyn a'r Cof Cyhoeddus*
Siaradwr: Yr Athro Peredur Lynch, Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Bangor
Yr Athro Prys Morgan, Llywydd y Gymdeithas, yn y gadair

**Dydd Mercher 25 Hydref 2017**
*Wales – China: 250 years of history*
Siaradwraig: Ena Niedergang, awdur a gynt yn Lywydd Cymdeithas Cyfeillgarwch Cymru Tseina
Ceridwen Roberts, Cadeirydd y Cyngor, yn y Gadair

**Dydd Iau 16 Tachwedd 2017**
*The Family of L'Estrange and the Conquest of Wales*
Siaradwr: Y Gwir Anrh. Yr Arglwydd Crughywel, awdur *The Rivers Join: The Story of a Family*, ac un o Is-Lywyddion y Gymdeithas
Yr Athro Prys Morgan, Llywydd y Gymdeithas, yn y gadair

**Dydd Llun 11 Rhagfyr 2017** (mewn cysylltiad â Chymdeithas Ddysgedig Cymru)
*Delivering the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015*
Siaradwraig: Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Yr Athro David Boucher, Is-Lywydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru, yn y gadair

Mae'r Cyngor yn dra diolchgar i'r rhai a dderbyniodd ei wahoddiad i ddraddodi darlithioedd ac i'r rhai oedd wedi cadeirio'r cyfarfodydd. Mae'r Cyngor hefyd am ddiolch i staff Cymdeithas Feddygol Llundain ble y cynhaliwyd pob un ond un o ddarlithoedd Llundain, a Swyddfa Llywodraeth Cymru yn Heol Fictoria a ddarparodd y lleoliad ar gyfer y ddarlith flynyddol yn y Gymraeg. Mae hefyd yn ddiolchgar am y cymorth a gafwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar Ynys Môn, ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn ogystal â'r sefydliadau eraill y trefnwyd darlithoedd gyda hwy.

Roedd nifer dda wedi mynychu'r darlithoedd a'r cyfraniadau i'r rhaglen o ansawdd uchel ac yn ysgogi diddordeb sylweddol yn y gynulleidfa, fel y gwelwyd yn y sesiynau gofyn ac ateb a thrafodaethau bywiog a ddilynodd y darlithoedd.

## Dyfarnu Medal y Gymdeithas

Drwy ddyfarnu ei Medal, mae Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion yn darparu cydnabyddiaeth ffurfiol o gyfraniad unigolion sydd wedi rhoi gwasanaeth nodedig i Gymru mewn llawer maes. Dyfarnwyd y Fedal am y tro cyntaf ym 1883 ac, ers hynny, mae'r Gymdeithas wedi'i chyflwyno i bron chwe deg o bobl nodedig, y ceir rhestr ohonynt ar ei gwefan. Ar wyneb blaen y Fedal, gwelir arfbais y Gymdeithas, a'i harwyddair, *Cared doeth yr encilion*. Ar y cefn, ceir y geiriau, *Wales, and all things great, wise and holy*.

Derbynydd diweddaraf Medal y Gymdeithas yw Llywydd y Gymdeithas, yr hanesydd yr Athro Prys Morgan DL MA DPhil FSA FRHistS FLSW. Mae'r Athro Morgan, a ddathlodd ei benblwydd yn 80 mlwydd oed yn 2017, wedi rhoi gwasanaeth rhagorol i Gymru ac i ddysg ac ysgoloriaeth dros lawer o flynyddoedd. Yn ogystal, mae wedi gwneud cyfraniad nodedig i waith y Gymdeithas hon, yn cynnwys fel Golygydd y *Trafodion* ac, ers 2005, fel Llywydd. Mae'r arysgrif ar ymyl ei Fedal yn darllen: *Dyfarnwyd i'r Athro Prys Morgan yn 2017 am ei wasanaeth nodedig i Gymru, i ddysg, ac i Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*.

Cyflwynwyd y Fedal mewn seremoni a fynychwyd gan nifer fawr o bobl ar Ddydd Mawrth, 24 Hydref 2017 yn y Reform Club yng nghanol Llundain. Yn dilyn croeso gan Gadeirydd Cyngor y Gymdeithas, Ceridwen Roberts OBE FAcSS FLSW, clywodd y gwesteion anerchiadau gan ddau o hen gyfeillion a chydweithwyr y Llywydd, Yr Athro Yr Arglwydd Morgan o Aberdyfi DPhil DLitt FBA FRHistS FLSW, a ganolbwyntiodd ar waith Prys Morgan fel hanesydd, a'r Athro M Wynn Thomas OBE FEA FLSW FBA, a siaradodd am ei gyfraniad ehangach i fywyd diwylliannol a diwylliedig Cymru.

Yn dilyn cyflwyniad ffurfiol y Fedal gan Ceridwen Roberts, rhoddodd Prys Morgan ei ymateb gan ddweud ei fod wedi ei synnu i ddeall bod Cyngor y Gymdeithas wedi ei ddewis ef i dderbyn y Fedal ond ei fod yn falch iawn i'w dderbyn a'i fod yn gwneud hynny ar ran ei deulu.

I gloi rhan ffurfiol y digwyddiad, cafodd westeion y pleser o glywed egwyl gerddorol swynol gan y delynores, Elin Kelly, myfyrwraig yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, a ganodd *Bugeilio'r Gwenith Gwyn* ac alawon traddodiadol Cymreig eraill.

## Cyhoeddiadau a gwybodaeth ar-lein

Mae dosbarthu gwybodaeth yn elfen allweddol o waith y Gymdeithas. Gwna hyn yn bennaf trwy gyhoeddi'r cylchgrawn, y *Trafodion*, a thrwy ei gwefan.

### *Trafodion* y Gymdeithas

Cyhoeddwyd Cyfrol 22 (2016) yng Nghyfres Newydd y *Trafodion* yn ystod y flwyddyn ac anfonwyd copi i bob un o aelodau unigol a chorfforaethol y Gymdeithas yn y Deyrnas Unedig a thramor. Mae'r Cyngor yn diolch i'r holl gyfranwyr ac yn cofnodi ei werthfawrogiad o'r gwaith a wnaed gan y Golygydd Mygedol a'r Bwrdd Golygyddol.

Ers rhai blynyddoedd bellach mae erthyglau y *Trafodion* hyd at y flwyddyn 2005 wedi bod ar gael trwy borth y Llyfrgell Genedlaethol, *Cylchgronau Cymreig Ar-lein (Welsh Journals Online)*. Yn ystod 2016, gwnaeth y Gymdeithas gytundeb trwyddedu â'r EBSCO Information Services, cwmni sy'n seiliedig yn UDA sy'n darparu cronfa ddata a gwasanaethau llyfrgell eraill i sefydliadau academaidd a sefydliadau eraill, i roi mynediad ar-lein i erthyglau o gyfrolau'r cylchgrawn yn y dyfodol (gan gychwyn gyda 2016).

Mae'r cytundeb yn anghyfyngedig ac nid yw'n rhwystro'r Gymdeithas rhag cyhoeddi erthyglau trwy gyfryngau eraill. Yn ystod 2017, cymeradwyodd y Cyngor wariant i alluogi erthyglau a gyhoeddwyd yn y *Trafodion* ers 2005 i fod ar gael i'r cyhoedd (ar amod o waharddiad o ddwy flynedd ar ryddhau deunydd i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Gymdeithas) trwy wefan y Gymdeithas ei hun.

### Darparu gwybodaeth ar-lein

Defnyddir y wefan i hysbysebu digwyddiadau'r Gymdeithas ac i roi cyhoeddusrwydd i weithgareddau eraill. Gwneir recordiadau clywedol o'r rhan fwyaf o'r darlithoedd ac mae'r rhain ar gael i'r aelodau fel podlediadau.

## Annog astudiaeth ac ymchwil

### Y Bwygraffiadur Cymreig

Dros y blynyddoedd, mae'r Gymdeithas wedi rhoi cymorth i nifer o weithgareddau ym meysydd addysg ac ymchwil. Un o'r rhain yw'r Bywgraffiadur Cymreig, sydd yn gyhoeddiad cyfeiriadurol hanfodol. Fe'i cyhoeddwyd gan y Gymdeithas yn wreiddiol mewn dwy gyfrol yn yr iaith Saesneg a thair yn yr iaith Gymraeg yn delio â hanes Cymru hyd at 1970. Lansiwyd fersiwn ar-lein gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2007, gan ychwanegu eitemau newydd a diwygio a diweddaru erthyglau gwreiddiol. Mae'r cynnwys cyfan ar gael am ddim ar wefan y Llyfrgell (http://yba.llgc.org.uk/cy). Yn 2014, cytunodd y Llyfrgell a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru i weithio mewn partneriaeth i gynnal a datblygu'r Bywgraffiadur ar ran y Cymmrodorion. Yn yr un flwyddyn, cyfrannodd y Gymdeithas £5,000 tuag at gostau'r Bywgraffiadur. Dyfarnwyd grant ychwanegol o £5,000 i'r prosiect yn ystod 2017 er mwyn cefnogi mentrau i godi arian i ddatbllygu'r Bywgraffiadur.

**Morrisiaid Môn**
Credir yn gyffredinol mai'r brodyr Morris o Ynys Môn (Morrisiaid Môn) oedd i raddau helaeth yn gyfrifol am sefydlu Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion – William, swyddog tollau yng Nghaergybi, Richard, Clerc Swyddfa'r Llynges yn Whitehall, a Lewis, a dreuliodd llawer o'i fywyd yn Sir Aberteifi fel syrfëwr y pyllau brenhinol ac a oedd yn un o arweinwyr adfywiad diwylliannol Cymreig canol y ddeunawfed ganrif. Gyda'u pedwerydd brawd, John, buont yn gohebu ar ystod helaeth o bynciau (gan gynnwys barddoniaeth, hynafiaetheg, cartograffeg, ffisioleg, garddwriaeth, hanes naturiol a mwynyddiaeth) gyda nifer fawr o bobl. Roedd eu cyfraniad i ddiwylliant Cymru yn ystod y ddeunawfed ganrif yn sylweddol ac mae eu llythyrau, sy'n rhoi cipolwg ar fywyd yng Nghymru ac yn Llundain ac ar berthynas y gwahanol ddosbarthiadau cymdeithasol yno, o werth mawr i haneswyr cymdeithasol a diwylliannol.

Mae nifer fawr o'r llythrennau llawysgrif wedi goroesi ac mae llawer o'r rhain wedi'u cyhoeddi ond mae angen dibryd am rifyn newydd ac am fynegai er mwyn galluogi gwneud y mwyaf o werth yr ohebiaeth er budd ymchwilwyr y dyfodol. Mae Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd (y bydd un o'i Cymrodyr Ymchwil, Dr Ffion Mair Jones, yn rhoi darlith ar William Morris a Thomas Pennant ym mis Mehefin 2018 fel rhan o Raglen y Gymdeithas ar gyfer 2017/18) yn paratoi cais i Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaiethau (AHRC) er mwyn cyflawni'r gwaith hwn ac mae'r Gymdeithas wedi ymrwymo grant bach (£ 750) i gefnogi'r gwaith paratoadol angenrheidiol. Disgwylir y telir hyn yn ystod 2018.

## Gweithio gyda sefydliadau eraill
Mae adeiladu perthynas gyda chynrychiolwyr sefydliadau eraill yn agwedd bwysig o waith y Gymdeithas.

Llwyddwyd i gynnal perthynas wresog â sefydliadau eraill yn Llundain. Cyfeiriwyd eisoes at y darlithoedd a drefnwyd mewn cysylltiad â Chymru yn Llundain a Chymdeithas Sir Drefaldwyn. Parhawyd perthynas dda â Chanolfan Cymry Llundain oedd wedi cytuno'n flaenorol y gellid defnyddio ei safle fel cyfeiriad swyddogol y Gymdeithas - 157-163 Gray's Inn Road, Llundain WC1X 8UE. Tua ddiwedd 2016 roedd y Gymdeithas wedi cefnogi cais a gyflwynwyd gan Ymddiriedolwyr Eglwys Undodaidd Newington Green (ble y lleolwyd Richard Price, un o fawrion Cymry Llundain yn y ddeunawfed ganrif) am arian o Gronfa Loteri'r Treftadaeth er mwyn adnewyddu'r eglwys Sioraidd a'r ysgoldy Fictoraidd ac roedd yn falch nodi canlyniad llwyddiannus i'r cais yn ystod 2017.

Mae'r Gydmeithas wedi parhau â'i gwaith gyda sefydliadau yng Nghymru, neu sydd â chysylltiadau â Chymru. Mae'r rhain yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol, oedd unwaith eto wedi darparu cyfleusterau ar gyfer Darlith flynyddol y Gymdeithas yn yr Eisteddfod, Darlith Goffa Syr Thomas Parry-Williams, a Chymdeithas Ddysgedig Cymru, gyda'r drydedd ddarlith flynyddol rhwng y Cymmrodorion a Chymdeithas Ddysgedig Cymru yn Rhagfyr 2017. Fel a nodwyd uchod, mae'r Gymdeithas hefyd wedi parhau i gydweithio â'r Llyfrgell Genedlaethol a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru wrth gefnogi'r Bywgraffiadur Cymreig. Roedd y Gymdeithas yn ddiolchgar i gael cynnal digwyddiadau ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ac hefyd, gyda chefnogaeth y Parchedig Ddr D Ben Rees ((aelod blaenorol o'r Cyngor), ym Mhenbedw, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi.

Mae'r Cyngor yn ddiolchgar i Ymddiriedolwyr Ysgol St David's yn Ashford, Middlesex (a sefydlwyd yn wreiddiol yn Llundain gan yr Honourable and Loyal Society of Antient Britons fel The Welsh Charity School), oedd wedi cau yn 2009, am y rhodd o'r darlun a adwaenir fel "The Welsh Ambassador's Goat" neu "Poor Taff", ynghyd â rhodd ariannol o ychydig dros £2,000 i helpu i dalu am gostau adnewyddu'r darlun. Mae'r Gymdeithas wedi darganfod bod y darlun yn waith gwirioneddol o ddiwedd y ddeunawfed neu ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac mae o ddiddordeb

hanesyddol sylweddol. Mae'r darlun wedi ei adnewyddu'n llwyr yn ystod y misoedd diwethaf a bellach mae mewn cyflwr da iawn. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar iawn i'r hanesydd celf, Peter Lord, am ei gymorth yn sefydlu tarddiad y darlun a sicrhau ei adnewyddu. Gan nad oes gan y Gymdeithas gartref parhaol, mae bod yn berchen ar ddarluniau yn achosi problemau, ac yn ystod 2018 bydd y Cyngor yn ystyried dyfodol hir dymor "Poor Taff", yn ogystal ag ail ddarlun sy'n perthyn i'r Gymdeithas, sef dyfrlliw gan Syr Alfred East, "The Valley of the Llugwy", sydd ar fenthyg i Oriel Ynys Môn ar hyn o bryd.

### Arolwg o'r Aelodau

Yn dilyn penderfyniad gan y Cyngor i adolygu ei strategaeth aelodaeth ac i gysylltu hyn â datblygu strategaeth farchnata, penderfynwyd yn 2017 y dylid comisiynu arolwg o'r aelodau. Roedd y Cyngor yn dymuno gwybod mwy am yr aelodaeth yn gyfan ac am sut yr edrychir ar y Gymdeithas a'i gweithgareddau gan yr aelodau gyda'r bwriad o sicrhau bod y Gymdeithas yn parhau i fod yn berthnasol i anghenion yr aelodau. Gyda chymorth y Social Research Association nodwyd dadansoddwr annibynnol, proffesiynol, profiadol a chymwys a chynhaliwyd yr arolwg (o holl aelodau unigol y Gymdeithas yn y DU) yn ystod haf 2017. Roedd yr holiadur yn delio â nifer o faterion, gan gynnwys nodweddion yr aelodaeth; beth oedd yn ysgogi aelodau i ymuno â'r Gymdeithas a sut oedd pobl wedi clywed am y Gymdeithas; ystyr a buddiannau aelodaeth; a lefelau ymgysylltiad a bodlondeb (gyda'r darlithoedd, y *Trafodion*, y wefan a dulliau eraill o gyfathrebu). Unwaith y bydd Grŵp Marchnata y Cyngor wedi cael cyfle i ystyried yr adroddiad ar yr arolwg, bydd y Cyngor yn ystyried y canlyniadau yn fanwl yn ystod 2018 a bydd yn gweithio i nodi a gweithredu strategaethau ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

# Sut Mae Gweithgareddau'r Gymdeithas yn Cyflwyno Budd Cyhoeddus

Yn ôl termau'r Ddeddf Elusennau 2011, mae amcanion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, fel y'u gosodir yn y Siarter, yn "amcanion elusennol" yn ôl diffiniad y Ddeddf. Maent yn cyflawni'r gofyn hwn trwy (i) fod er budd y cyhoedd a (ii) thrwy gyflawni'r disgrifiad o ddau o'r amcanion a ddiffinir yn Rhan 1, adran 2, is-adran 2 y Ddeddf, sef:

b) hyrwyddo addysg; a

f) hyrwyddo'r celfyddydau, treftadaeth neu wyddoniaeth.

Ymhlith gweithgareddau'r Gymdeithas sydd o fudd i'r cyhoedd mae'r rhain yn benodol:

(1) hyrwyddo, cefnogi a hybu astudiaeth ac ymchwil a dosbarthu canlyniadau hyn i'r cyhoedd;

(2) hwyluso trafodaeth wybodus a rhyngweithredu'r cyhoedd ar ystod o faterion a phynciau, gan alluogi gwelliant yn nealltwriaeth y cyhoedd, ac ym mywyd deallus yn gyffredinol.

Y cyhoedd a "chymdeithas" yn gyffredinol, yn Llundain a Chymru ac yn ehangach, yw'r rhai sy'n elwa o weithgareddau'r Gymdeithas, fel nad yw'r buddion wedi eu cyfyngu gan ddaearyddiaeth. Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar angen elusennol.

Rhydd y gweithgareddau fudd i'r cyhoedd mewn nifer o ffyrdd: trwy roi llwyfan tu hwnt i ffiniau Cymru i ystyried materion o bwysigrwydd i Gymru; trwy drefnu rhaglen o ddarlithoedd a thrafodaethau, yn cynnwys darlith yn yr Eisteddfod Genedlaethol, sydd yn agored ac yn rhad ac am ddim i'r cyhoedd; trwy gefnogi ysgolheictod ac ymchwil megis y Bywgraffiadur; trwy gyhoeddi a

dosbarthu gwybodaeth yn y *Trafodion*, yn ogystal â thrwy wefan y Gymdeithas, sy'n gwneud gwybodaeth ar gael i gynulleidfa eang; a thrwy gydweithredu â sefydliadau eraill.

**Datganiad Budd Cyhoeddus**
Mae aelodau'r Cyngor, sy'n gweithredu yn unol â'u swyddogaeth fel Ymddiriedolwyr, wedi cydymffurfio â'r gofyn hanfodol bod elusennau llai yn adrodd ar Fudd Cyhoeddus, ac yn eu dyletswydd i ystyried canllawiau budd cyhoeddus y comisiwn pan yn defnyddio'r pwerau neu'r dyletswyddau sy'n berthnasol i'r canllawiau.

# Datganiad

Yn unol â chyfraith elusen, rydym ni, ymddiriedolwyr yr elusen, yn ardystio:

ein bod wedi cymryd yr holl gamau y dylem er mwyn sicrhau ein bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac i sicrhau bod archwiliwr annibynnol yr elusen yn ymwybodol o'r wybodaeth yna.

Paratowyd yr adroddiad hwn yn unol â:

- *Datganiad Ymarfer a Argymhellir: Cyfrifeg ac Adrodd gan Elusennau* (Ionawr 2015); a
- chanllaw y Comisiwn Elusennau, *Budd cyhoeddus; y gofyniad budd cyhoeddus (PB1); Budd cyhoeddus: rhedeg elusen (PB2),* a *Budd cyhoeddus: adrodd (PB3)* (pob un ym Medi 2013).

Cymeradwywyd yr adroddiad hwn gan y Cyngor ac arwyddwyd ar ei ran gan:

Ceridwen Roberts
..................................................................
Ceridwen Roberts (Cadeirydd y Cyngor)

..................................................................
Huw Wynne-Griffith (Trysorydd Mygedol)

..................................................................
Dr Lynn Williams (Ysgrifennydd Mygedol)

Dyddiad: 27 Chwefror 2018

# Arolwg Ariannol

Mae safle ariannol y Gymdeithas yn iach. Ar ddiwedd 2017 cyfanswm gwerth marchnad yr asedau oedd £187,962 ac roedd balans arian parod yn £12,838.

Mae'r Cyfrif Cyllid yn dangos diffyg am y flwyddyn o £6,158 (o'i gymharu â £11,097 dros ben yn 2016). Roedd yr incwm o danysgrifiadau 4.4% yn llai nag yn 2016. Roedd yr incwm yna, ynghyd â'r Cymorth Rodd a ad-dalwyd, yn £20,060 (bron i 70% o holl enillion y Gymdeithas). Mae'r Cyngor wedi cychwyn archwilio ffyrdd ble y gellir gwella marchnata'r Gymdeithas a'i gweithgareddau i aelodau newydd posibl yn ogystal ag i aelodau presennol.

Roedd gwario rheolaidd blynyddol yn £35,101 (o'i gymharu â £16,347 yn 2016). Roedd nifer o eitemau gwario anarferol yn ystod 2017, gan gynnwys:

- grant o £5,000 i brosiect Y Bywgraffiadur Cymreig;
- rhoi erthyglau'r *Trafodion* ar wefan y Gymdeithas (£1,900);
- diweddaru meddalwedd cronfa ddata'r aelodau ar y wefan (£800);
- buddsoddiad mewn ymchwil marchnata'r aelodaeth (£3,600);
- cyflwyno Medal y Gymdeithas (£1,700).

Mae'r sylwadau canlynol yn esbonio ymhellach y gwahaniaethau rhwng canlyniadau 2017 a 2016:

- roedd yr incwm o fuddsoddiadau wedi codi yn rhannol oherwydd bod mwy o fuddsoddiadau;
- mae'r gost ar gyfer y Trafodion yn 2016 yn isel oherwydd bod rhywfaint o'r gost wedi ei dalu o flaen llaw yn 2015.

O ganlyniad i ddiffyg o £6,158, mae asedau'r Gymdeithas yn nhermau faint roeddent yn ei gostio wedi disgyn o faint y golled, o £173,763.24 i £167,605. Fodd bynnag, mae faint sydd gan y Gymdeithas ar gael yn cael ei fesur gan werth y farchnad o'i asedau, yn hytrach na'u cost. Mae gwerth y farchnad o holl asedau'r Gymdeithas wedi disgyn o £189,253 i £187,962. Mae'r cwymp hwn o £1,291 yn llai na'r diffyg ar weithrediadau'r flwyddyn oherwydd bod gwerth buddsoddiadau'r Gymdeithas hefyd wedi cynyddu.

Mae'r Gymdeithas yn derbyn incwm sylweddol o'i buddsoddiadau. Cyfanswm y rhain oedd £6,092, neu 21% cyfanswm incwm yn 2017. Mae incwm y buddsoddiadau'n helpu i liniaru effaith chwyddiant ar gostau'r Gymdeithas heb orfod cynyddu'r tanysgrifiadau (strategaeth a fyddai'n golygu risg i'w incwm).

Nid yw'r Gymdeithas yn cyflogi unrhyw staff ac felly nid oes unrhyw gostau ynghlwm. Mae hyrwyddo ei gweithgareddau'n ddibynnol ar fewnbwn gwirfoddol aelodau'r Cyngor ac aelodau eraill y Gymdeithas.

**Ystadegau Aelodaeth**

Roedd gan y Gymdeithas gyfanswm o 620 aelod ar ddiwedd 2017. Dyma fanylion y cyfanswm (gyda ffigyrau 2016 mewn cromfachau):

| | | |
|---|---|---|
| Unigolion yn y DU | 496 | (565) |
| Sefydliadau yn y DU | 63 | (68) |
| Unigolion Tramor | 21 | (20) |
| Sefydliadau Tramor | 40 | (40) |

O'r unigolion yn y DU, mae 60 wedi eu dileu o'r rhestr oherwydd nad oeddent wedi talu eu tansygrifiadau ers amser. Ymunodd 18 aelod newydd yn ystod 2017.

# Polisi ar Gadw a Buddsoddi Cronfeydd

Mae'r Gymdeithas wedi cronni cronfeydd dros y blynyddoedd. Crëwyd y cronfeydd hyn am ddau reswm:

- yn gyntaf, i sicrhau, pe bae'r Gymdeithas yn mynd trwy adeg o gynni, yna byddai digon o adnoddau i barhau i weithredu nes bod amgylchiadau gwell yn bodoli;

- yn ail, ac yn bwysig, i ddarparu arian i ariannu prosiectau penodol o natur cyfalaf a oedd yn rhy fawr i'w hariannu gan lefelau incwm arferol y Gymdeithas.

Mae'r Cyngor yn ystyried gwariant dan yr ail gategori yn "wariant cyfalaf".

Mae asedau'r Gymdeithas yn cynnwys arian parod (tua £13,000 ar 31 Rhagfyr 2017) ynghyd â'i buddsoddiadau (tua £175,000).

Nid oes unrhyw gyfyngiadau ar sut y cymhwysir y cronfeydd ac mae'r Cyngor yn ystyried bod ganddo'r grym i gronni incwm i mewn i'r cronfeydd. Fodd bynnag, nid bwriad y Cyngor yw cronni cronfeydd heblaw am y dibenion a amlinellir uchod. Fel arfer nid oes unrhyw fwriad i ychwanegu at fuddsoddiadau'r Gymdeithas na'u realeiddio.

Mae'r Gymdeithas wedi cymeradwyo polisi buddsoddiad a adolygir yn flynyddol (yn Chwefror 2017 yn fwyaf diweddar). Yn gyfredol, mae'r buddsoddiadau'n cynnwys unedau mewn cronfeydd i elusennau'n unig, un buddsoddiad mewn soddgyfrannau ac un arall mewn bondiau. Rhennir y cronfeydd, yn gyfartal ar y cyfan, rhwng dau sefydliad buddsoddi blaenllaw, M&G Investments a Schroder.

Anrhydeddus Gymdeithas
Y Cymmrodorion

Sefydlwyd 1751

The Honourable Society
Of Cymmrodorion

Founded 1751

NODDWR/PATRON: EI UCHELDER BRENHINOL TYWYSOG CYMRU/ HRH THE PRINCE OF WALES

# ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION

# DATGANIADAU CYLLIDOL
# AM Y FLWYDDYN HYD AT 31 RHAGFYR 2017

R Lewis
Lewis &Co
75 Kenton Street
Llundain
WC1 1NN

## Adroddiad yr Arholwr Annibynnol at yr Ymddiriedolwyr

### Datganiadau Cyllidol am y flwyddyn hyd at 31 Rhagfyr 2017

Yr wyf wedi arholi'r cyrifon a baratowyd yn ôl fy nealldwriaeth o ofynion polisiau cyfrifyddol cymeradwy sy'n gyfredol.

### Priod gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r arholwr annibynnol

Fel ymddiriedolwyr yr elusen, yr ydych yn gyfrifol am baratoi'r cyfrifon: yr ydych o'r farn nad ydyw'r gofynion archwilio rhan 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (Y Ddeddf) yn addas i'ch sefyllfa ond mae angen archwiliad annibynnol.

Fy ngyfrifoldeb i yw:

- archwilio'r cyfrifon o dan rhan 145 o'r Ddeddf
- dan sail yr arferion a fanylir yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a gyhoeddir gan y Comisiwn Elusen o dan rhan 145(5)(b) o'r Ddeddf,
- -i ddatgan a ddaeth unrhyw faterion arbennig i'm sylw ai peidio.

### Sail adroddiad yr arholwr annibynnol

Cyflawnwyd fy arholiad yn unol a'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusen. Y mae'r arholiad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion cyfrif a gedwir gan yr elusen, a chymhariaeth o'r cyfrifon a gyflwynir gyda'r cofnodion hynny. Y mae'n cynnwys hefyd ystyriaeth o unrhyw eitemau anarferol neu unrhyw ddatgeliadau yn y cyfrifon hynny, a cheisio eglurhad oddiwrchych chwi fel ymddiriedolwyr ynglyn ag unrhyw faterion o'r fath. Nid ydyw'r arferion a gyflawnwyd yn rhoi'r holl dystiolaeth a fyddai'n angenrheiodol mewn archwilwiad cyyflawn ac oherwydd hynny nid wyf yn datgan barn ar yr argraff a roddir gan y cyfrifon.

### Datganiad yr arholwr annibynnol

Ni ddaeth unrhyw beth i'm sylw yn gysylltiedig â fy arholiad:

(1) sy'n rhoi achos rhesymol i mi gredu mewn unrhyw fodd sylweddol:

- na chadwyd cofnodion cyfrif yr elusen yn unol â gofynion rhan 130 o Ddeddf Elusennau;
- nad ydyw'r cyfrifon yn gyson â'r cofnodion hynny ac y cydymffurfio â gofynion cyllidol y Ddeddf; neu

(2) a ddylir tynnu sylw ato, yn fy marn i, er mwyn dealltwriaeth cywir o'r cyfrifon.

R W Lewis
..................................

Dyddiad: 15/2/18

R Lewis FCA
Lewis &Co
75 Kenton Street
Llundain
WC1 1NN

# Datganiad o Gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr

## Cofnodion cyfrif

Y mae rhan 130 o'r Ddeddf Elusennau'n gosod rheidrwydd ar ymddiriedolwyr i sicrhau digonedd y cofnodion cyfrif i:

(a) ddangos ac egluro holl weithredau'r elusen;

(b) ddatgelu, unrhyw bryd, gyda chywirdeb rhesymol, sefyllfa ariannol yr elusen bryd hynny;

(c) alluogi'r ymddiriedolwyr i sicrhau bod unrhyw ddatganiad o gyfrif sy'n angenrheidiol o dan rhan 42(1) yn unol â gofynion unrhyw reolau a wneir dan y rhan honno;

ac, yn arbennig, i gynnwys:

(d) cofnodion yn dangos, o ddydd i ddydd, holl dderbyniadau a thaliadau ariannol yr elusen a'r materion y mae'r derbyniadau a'r taliadau hynny yn digwydd o'u herwydd; a

(e) chofnod o asedion a dyledion yr elusen.

Y mae'r ymddiriedolwyr hefyd yn gyfrifol am warchod asedion yr elusen a thrwy hynny yn gyfrifol am wneud trefniadau rhesymol i ddatgelu ac atal twyll, camgymeriad neu unrhyw gamweinyddu arall.

Wrth baratoi'r cyfrifon disgwylir i'r ymddiriedolwyr ddewis polisiau cyfrifyddol addas a'u gweithredu'n gyson, gan farnu ac amcangyfrif yn ddarbodus ac yn rhesymol. Mae'r cyfrifon wedi eu darparu ar sail "derbyniadau a thaliadau" o dan rhan 133 o'r Ddeddf.

**ANRHYDEDDUS GYMDEITHAS Y CYMMRODORION** **DATGANIADAU CYLLIDOL HYD AT 31 RHAGFYR 2017**

**DERBYNIADAU A THALIADAU**

| **DERBYNIADAU** | **2017**<br>**£** | 2016<br>£ |
|---|---|---|
| Tanysgrifiadau | 17,115 | 17,906 |
| Cyfraniad Cymdeithas Maldwyn | 200 | 200 |
| Incwm Buddsodiadau | 6,092 | 5,462 |
| Gwerthiant Y Bywgraffiadur Cymreig | 4 | 33 |
| Gwerthiant cyhoeddiadau eraill | 12 | 18 |
| Ad-daliad treth Cymorth Rhodd | 2,945 | 3,171 |
| Cymdeithas Drwyddedu Cyhoeddwyr | 345 | 404 |
| Cymynroddion | 2,230 | 250 |
| **CYFANSWM DERBYNIADAU** | **28,943** | **27,444** |

| **TALIADAU** | | **£** |
|---|---|---|
| Treuliau cyfarfodydd darlith | 6,716 | 7,257 |
| Cylchgrawn y Gymdeithas, y *Trafodion* | 8,620 | 2,000 |
| Datblygu'r wefan ac IT | 3,471 | 2,204 |
| Gohebiaeth y CCB | 429 | 676 |
| Rhaglen | 174 | 488 |
| Rheoli'r Archifau | 31 | 118 |
| Gohebiaethau eraill | 59 | 309 |
| Gweinyddiaeth | 1,272 | 1,092 |
| Mân gostau | 960 | 0 |
| Grant i'r Bywgraffiadur Cymreig | 5,000 | |
| Costau Charities Aid Foundation, PayPal & GoCardless | 274 | 264 |
| Marchnata | 3,673 | 60 |
| Medalau & chyflwyniadau | 3,524 | 483 |
| Gwasanaethau Cyfieithu | 898 | 1,396 |
| **CYFANSWM O DALIADAU** | **35,101** | **16,347** |
| **GORGED DERBYNIADAU TROS DALIADAU** | **-6,158** | **11,097** |

**RHESTR ASEDAU AR 31 RHAGFYR 2017**

| | 2017 | 2016 |
|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | **£** | £ |
| Buddsoddiadau am y gost (Nodyn) | 154,767 | 138,767 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | |
| HSBC Cyfrif Cyfredol | 12,654 | 34,325 |
| HSBC Cyfrif Adnau | 7 | 8 |
| HSBC Ail Gyfrif | 75 | 550 |
| Cyfrif PayPal | 101 | 113 |
| **ASEDAU CYFAN** | **167,605** | 173,763 |

| **Nodyn** | **2017 Cost** | **2017 Gwerth** | 2016 Cost | 2016 Gwerth |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiadau | **£** | **£** | £ | £ |
| M&G Charifund | 30,000 | **43,037** | 30,000 | 36,455 |
| M&G Charibond | 35,000 | **37,708** | 35,000 | 34,368 |
| Schroder Charity Equity Fund | 38,767 | **53,349** | 38,767 | 46,691 |
| Schroder Charity Bond Fund | 35,000 | **41,030** | 35,000 | 36,742 |
| | **138,767** | **175,124** | 138,767 | 154,257 |

**Cymod Cronfaoedd**

| | **2017** | 2016 |
|---|---|---|
| Cronfaoedd 1 Ionawr | 173,763 | 158,260 |
| Gorged am y flwyddyn | -6,158 | 4,406 |
| Cronfaoedd 31 Rhagfyr | 167,604 | 162,666 |

**H R Wynne-Griffith**
Trysorydd Mygedol
Ar ran yr Ymddiriedolwyr

Dyddiad: 15/2/18